# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

**RHAN 5**

GORFODI SAFONAU

**PENNOD 3**

DIFFYG CYDYMFFURFIO Â SAFONAU: CWYNION GAN BERSONAU YR EFFEITHIR ARNYNT

**94 Hysbysiad os nad oes ymchwiliad etc**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn unrhyw un neu ragor o'r achosion a ganlyn.

(2) Yr achos cyntaf yw—

(a) pan fo'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio yn gymwys, a

(b) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad.

(3) Yr ail achos yw—

(a) pan fo adran 93(7) yn gymwys o ran cwyn, a

(b) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio.

(4) Y trydydd achos yw pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu nad yw'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio yn gymwys.

(5) Y pedwerydd achos yw—

(a) pan nad yw'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio yn gymwys, a

(b) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio o dan adran 93(8) neu, ar ôl ystyried ai i gynnal ymchwiliad o dan yr adran honno, yn penderfynu peidio â chynnal yr ymchwiliad.

(6) Y pumed achos yw—

(a) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu cynnal ymchwiliad, ac

(b) pan fo'r Comisiynydd wedyn yn penderfynu terfynu'r ymchwiliad.

(7) Rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P—

(a) o'r penderfyniad a nodir yn is-adrannau (2)(b), (3)(b), (4), (5)(b) neu (6)(b), a

(b) o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, ac

(c) o'r hawl i gael adolygiad o dan adran 103.